Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 710 (Cy.111)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*7 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 512ZB(4)(aa)(ii) a 568 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2011 ac mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

mae i "Credyd Treth Plant" a "Credyd Treth Gwaith" yr ystyr a roddir i ("*Child Tax Credit*") a ("*Working Tax Credit*") yn Neddf Credydau Treth 2002(**3**);

ystyr "Gorchymyn 2003" ("*the 2003 Order*") yw Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003(**4**);

ystyr "incwm blynyddol" ("*annual income*") yw'r incwm am y flwyddyn dreth wedi ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(**5**).

(**1**) 1996 p.56. Rhoddwyd adran 512ZB, ynghyd ag adran 512, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, a 512ZA yn lle adran 512 gan adran 201(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) ac mewnosodwyd is-adran (4)(aa) ac (c) o adran 512ZB gan adran 26(1)(c) ac (e), yn eu trefn, o Ddeddf Tlodi Plant 2010 (p.9). Am ystyr "prescribed" *gweler* adran 512(6).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2002. p. 21.

(**4**) O.S 2003/879 (Cy. 110).

(**5**) O.S. 2002/2006, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/732, 2003/2815, 2004/2663, 2006/745, 2006/766, 2007/824, 2007/1305 a 2008/2169

Diwygio

3.—(1) Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2003.

(2) Yn lle erthygl 3 o Orchymyn 2003, rhodder—

"**Credydau treth rhagnodedig**

3. Rhagnodir Credyd Treth Plant at ddibenion adran 512ZB(4)(aa)(ii) o Ddeddf Addysg 1996 –

(a) pan fo hawl gan riant P i gael Credyd Treth Plant ond dim hawl i gael Credyd Treth Gwaith; a

(b) pan fo rhiant P yn cael Credyd Treth Plant yn rhinwedd dyfarniad ar sail incwm blynyddol nad yw'n uwch na'r swm o £16,190.".

Leighton Andrews
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2011

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi, at ddibenion adran 512ZB(4)(aa)(ii) o Ddeddf Addysg 1996, pan fo gan riant P hawl i gael Credyd Treth Plant ond dim hawl i gael Credyd Treth Gwaith a'i fod yn cael Credyd Treth Plant ar sail incwm blynyddol nad yw'n uwch na £16,190, bod gan P hawl i gael ciniawau ysgol am ddim.